

CYDLYNYDD O LAW I LAW

Swydd ddisgrifiad

Cytundeb tri mis gyda'r gobaith o'i ymestyn wedi hynny.

Cyflog – £9.30 yr awr

Cyffredinol

Mae Cyngor Tref Caernarfon wedi llwyddo i gael grant gan Gronfa Economi Gylchol Llywodraeth Cymru i sefydlu hwb yng nghanol y dref ar gyfer cyfnewid, dosbarthu, rhannu, aildddefnyddio, ailgylchu a thrwsio dillad, bwyd, offer trydanol a dodrefn. Rydym yn awyddus i benodi rhywun i gydlynnu'r gwaith.

Mae tair adain i waith y prosiect ar hyn o bryd – derbyn a rhannu bwyd sy'n cael ei gyfrannu drwy gynllun FoodShare Tesco, cyfrannu at y cynllun Porthi Pawb sy'n darparu un pryd poeth yr wythnos i deuluoedd bregus yn y dref a gwerthu neu gyfnewid dillad plant a babanod mewn lleoliad a fydd hefyd yn hwb cymdeithasol lle gall pobl y dre ddod at ei gilydd am sgwrs.

Oriau Gwaith

36 awr yr wythnos, fel arfer rhwng 10 a 4 o Ddydd Llun i Ddydd Sadwrn

Lleoliad Swydd

Eich man gwaith arferol fydd Siop o Law i Law yng Nghaernarfon.

Prif Ddyletswyddau

- Bod yn Reolwr Safle, ac ymateb i unrhyw broblemau fydd yn codi o ran iechyd a diogelwch
- Cyfathrebu efo'r holl randdeiliaid perthnasol, yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd, gwirfoddolwyr, darparwyr hyfforddiant, swyddogion ac aelodau'r Cyngor.
- Bod yn gyfrifol am agor a chloi'r adeilad.
- Recriwtio a rheoli gwirfoddolwyr i weithio efo'r cynllun.
- Rhannu a rhaedru gwybodaeth ymysg gwirfoddolwyr
- Derbyn ac ymateb i ymholiadau a chwynion
- Creu rota o wirfoddolwyr i weithio ar y Cynllun a chadw'r rota yn gyfredol o ran pwyntiau cyswllt
- Ymateb i unrhyw fylchau yn y rota a llenwi bylchau pan fo gwirfoddolwyr ddim ar gael ar fyr rybudd
- Adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd rheoli.
- Creu asesiadau risg a gweithredu arnyn nhw
- Trin a bancio arian yn ôl y gofyn
- Cadw cyfrifon ariannol syml
- Mynychu unrhyw hyfforddiant yn ôl y gofyn
- Gwneud unrhyw ddyletswydd arall sy'n rhesymol yn ôl y gofyn

This is a description of a job for which the ability to communicate in Welsh is essential